

## 2012 Rhif 347 (Cy. 59)

### TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

#### Gorchymyn Traffordd yr M4 (Ffordd Ymadael Tua'r Gorllewin wrth Gyffordd 23a (Magwyr), Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012

*Wedi'i wneud*                      *10 Chwefror 2012*

*Yn dod i rym*                      *21 Chwefror 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Draffordd Llundain – De Cymru (M4) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “y draffordd”), wedi eu bodloni y dylai traffig ar ddarn penodedig o'r draffordd gael ei wahardd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 21 Chwefror 2012 a'i enw yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Ffordd Ymadael Tua'r Gorllewin wrth Gyffordd 23a, (Magwyr), Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (*“exempted vehicle”*) yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (*“works period”*) yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 21 Chwefror 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n derfynol;

ystyr “y darn o'r draffordd” (“*the length of the motorway*”) yw'r cyfan o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin ar draffordd yr M4 wrth Gyffordd 23a (Magwyr) yn Sir Fynwy.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, heblaw cerbyd esempt, fynd ar y darn o'r draffordd a bennwyd.

4. Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond yn ystod yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y

10 Chwefror 2012

*G R Morgan*

**GARETH MORGAN**

Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith

Llywodraeth Cymru

- (1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
- (2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.